

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee

Hynt y gwaith gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu Cwricwlwm newydd Cymru | Welsh Government's progress in developing the new Curriculum for Wales

CR 14

Ymateb gan: Urdd Gobaith Cymru
Response from: Urdd Gobaith Cymru

Cyflwyniad

1. Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad leuenctid Cenedlaethol Gwirfoddol. Mae 55,000 o blant a phobl ifanc Cymru yn aelodau. Nod Urdd Gobaith Cymru yw i '... sicrhau cyfle, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg i holl ieuenctid Cymru (rhwng 8 a 25 oed) i ddatblygu'n unigolion cyflawn; a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.'
2. Mae'r Urdd wedi meithrin cenedlaethau o ddynion a merched ifanc i ymfalchïo yn eu gwlad, i fod yn agored i'r byd ac i ymgorffori ein hiaith a'n diwylliant, ynghyd â'r gwerthoedd cyffredinol rydym ni'n eu coleddu yng Nghymru. Mae dros 4 miliwn o blant a phobl ifanc wedi bod yn aelodau o'r Urdd ers iddo gychwyn yn ôl yn 1922. Ni ellir gor-bwysleisio arwyddocâd yr Urdd. Mae ei gyfraniad at genedlaethau yng Nghymru, at fywydau, hyder ac iechyd meddwl ein pobl ifanc dros y blynyddoedd wedi bod yn aruthrol.
3. Mae pob un ysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru yn ymwneud â'r Urdd ac mae 56% o holl ysgolion Cymru yn ymwneud â'r Urdd trwy'r canlynol:
 - Darpariaeth yr Urdd o fewn ysgolion yng Nghymru, clybiau amser cinio ac ar ôl ysgol
 - Cynllun 'Cymraeg pob Dydd' sydd yn rhoi cyfleoedd defnyddio'r Gymraeg o fewn ysgolion di-Gymraeg
 - Cyfnodau preswyl yng ngwersylloedd yr Urdd
 - Chwaraeon
 - Gwaith leuenctid a Chymunedol
 - Y Celfyddydau

- Perfformio ar lwyfannau lleol, sirol a rhanbarthol
- Llenyddiaeth
- Theatr leuenctid yr Urdd
- Ymweliadau Rhyngwladol
- Cylchgronau ail iaith ac iaith gyntaf
- Gwaith Dyngarol a Neges Heddwch ac Ewyllys Da leuenctid Cymru gan yr Urdd
- Gwirfoddoli yn gymunedol ac yn rhyngwladol
- Achrediadau a hyfforddiant i bobl ifanc
- Gweithgareddau Awyr Agored.

Gweler www.urdd.cymru

4. Mae dros 58% o breswylwyr y gwersylloedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg ac mae 26% o aelodaeth yr Urdd o'r 20% ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru. Trosiant yr Urdd yw £10.3 miliwn a daw 21% o'n hincwm o ffynonellau cyhoeddus. Yn ddiweddar cyhoeddwyd adroddiad ar werth economaidd yr Urdd yn genedlaethol ar draws Cymru o dros £25.5 miliwn (2016/2017). Mae Gweithwyr leuenctid a Gweithwyr Cymorth leuenctid yr Urdd wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg.
5. Rydym yn aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Datblygu'r Cwricwlwm ynghyd â'r is-grŵp plant a phobl ifanc.
6. Rydym yn ymfalchïo bod y Gymraeg yn ganolog i ddatblygiad y Cwricwlwm ac edrychwn ymlaen at gefnogi ysgolion a Llywodraeth Cymru i wireddu'r weledigaeth - 'Galluogi pob dysgwr i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn defnyddio'r iaith yn hyderus ym mhob agwedd ar fywyd.'

Ein hymateb i ddetholiad o'r cwestiynau a osodwyd gan y pwyllgor.

7. Sut y mae datganiadau 'Beth sy'n Bwysig?', a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn cael eu datblygu i greu cynnwys y cwricwlwm ym mhob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad

- 7.1. Rydym yn ymwybodol bod y rhain yn cael eu datblygu gan y proffesiwn, fel mudiad nid ydym wedi derbyn gwahoddiad swyddogol i fod yn rhan o'u datblygiad. Byddwn wedi disgwyl cyswllt i drafod y cyfleoedd ar gyfer profiadau cyfoethogi ym maes Iechyd a Lles, Dyniaethau, Celfyddydau Mynegiannol, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

8. Effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rôl y Grŵp Cyngori Annibynnol a Bwrdd y Cadeiryddion, a chyfraniad y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol ar Ddiwygio Addysg;

- 8.1. Rydym yn aelod o'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol ar Ddiwygio Addysg ac yn ei fynychu yn rheolaidd. Trwy fynychu cyfarfodydd y grŵp yma, rydym yn derbyn diweddariadau ar ddatblygiad y cwricwlwm ynghyd â mynegi barn ar agweddau o'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- 8.2. Er hyn ychydig o ddeialog sydd hyd yma i ni gyfrannu'n strategol. Roeddwn yn disgwyl byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn am ein barn ar y ddogfen Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, cyfraniad mudiadau gwaith ieuenctid at y cwricwlwm newydd, rôl cyrff allanol yn natblygiad y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r profiadau cyfoethogi, trafod y berthynas rhwng y cwricwlwm a chyrff allanol a sut i gychwyn paratoi cyrff allanol i ymgysylltu a'r cwricwlwm.

9. Pa mor barod yw ysgolion ac athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm newydd ac i ba raddau y mae cysyniadau adroddiad yr Athro Donaldson ar ei adolygiad, Dyfodol Llwyddiannus, yn cael eu rhoi ar brawf a'u rhoi ar waith eisoes.

- 9.1. Hoffwn ganolbwyntio ein hymateb yn seiliedig ar y profiadau cyfoethogi a dysgu tu allan i'r dosbarth. Hyd yma nid ydym yn ymwybodol os oes trafodaethau neu ymchwil, ar waith yn y maes hwn.
- 9.2. Yn y ddogfen *Dyfodol Llwyddiannus* gan yr Athro Graham Donaldson, Chwefror 2015, nodwyd ym Mhennod 5, pwynt 6, y canlynol:

'bringing the word into range'. Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn gweld bod eu dysgu'n berthnasol i'r byd tu allan i'r ysgol a bod cyfleoedd i ffurfio cysylltiadau a'r byd hwnnw yn cael eu gwireddu. Mae nifer o ysgolion wedi cydnabod eisoes fod angen ymestyn ymhellach na'u harbenigedd eu hunain ac wedi ffurfio cysylltiadau cryf a chyrff ac unigolion y tu allan.'

'Mae perfformiad yn ei ystyr ehangaf yn bwysig hefyd i greu dilysrwydd. Cellir meithrin sgiliau arwain drwy chwarae rhan yn yr ystafell ddosbarth a hefyd drwy gymryd rhan yn fwy ffurfiol mewn clybiau a chymdeithasau.'

Mae argymhelliad 34 yn nodi 'Dylai plant a phobl ifanc gael cyfleoedd i ddysgu o arbenigedd a phrofiad tu allan i'r ysgol.'

- 9.3. Yn y ddogfen ddilynol, *Cymwys am Oes, Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes Chwefror 2015*, cyfeirir yn benodol yn adran Bloc Adeiladu 3 at ymestyn a hyrwyddo profiadau dysgwyr, cyfraniad clybiau, cymdeithasau, grwpiau, chwaraeon, celfyddydau, trydedd sector ayyb. Mae'r adran yn nodi pwysigrwydd i ysgolion a sefydliadu

allanol i gydweithio gan ystyried, ymestyn a chreu profiadau yn y gymuned i ddysgwyr.

- 9.4. Ond wrth edrych ar y ddogfen fwyaf diweddar *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, Cynllun gweithredu 2017-21*, mae llai o bwyslais ar y profiadau cyfoethogi a chyfraniad cyrff fel yr Urdd. O fewn y tair haen system addysg Cymru nid oes cyfeiriad at gyfraniad mudiad fel yr Urdd tuag at addysg plant a phobl ifanc.
- 9.5. Teimlwn ei fod yn amserol i gychwyn y drafodaeth hon gan gychwyn profi a datblygu sgiliau o fewn ysgolion ac o fewn cyrff allanol, i alluogi cyfraniad proffesiynol, ymholgar a phwrpasol.
- 9.6. Er bod sôn am gyfraniad gwaith ieuenctid o fewn amcan galluogi 3, nid oes trafodaeth ffurfiol wedi digwydd gyda'r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol i drafod ei rôl a chyfraniad i'r cwricwlwm newydd. Yn ychwanegol mae angen ystyried os gall y cynnig gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg gefnogi'r amcan hwn. I'r perwyl yma mae'r Urdd wedi cyflwyno cynnig o fodel gwaith ieuenctid cenedlaethol cyfrwng Cymraeg i swyddogion Llywodraeth Cymru. Deallwn bydd angen i'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid dros dro ystyried hyn wrth ddatblygu'r strategaeth gwaith ieuenctid yng Nghymru.
- 9.7. Rydym yn awyddus i ddatblygu ein cynnig e.e. sut mae profiadau'r Urdd yn pontio yn ôl i'r cwricwlwm ac addysg plant a phobl ifanc Cymru. Teimlwn fod angen rhannu gwybodaeth am y Cwricwlwm newydd a datblygu capasiti cyrff fel yr Urdd i ymateb i'r trawsnewid sylfaenol yn y cwricwlwm rhwng nawr hyd at 2022.

10. Y camau a gymerir i sicrhau bod Cwricwlwm Cymru newydd yn ategu blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) Cymraeg 2050.

- 10.1. Rydym yn croesawu'r cynllun gweithredu manwl ar gyfer gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg. Mae Urdd Gobaith Cymru yn edrych ymlaen at gyfrannu at y weledigaeth. Mae profiadau plant a phobl ifanc o gynnig yr Urdd, cyfnodau preswyl yn y gweryslyoedd a'r cynllun Cymraeg Bob Dydd yn enghreifftiau o brofiadau cyfoethogi sy'n dod a'r Gymraeg yn fyw i blant a phobl ifanc. Rydym am barhau i ddatblygu ac ehangu'r profiadau yma i bob dysgwr ac edrychwn ymlaen at weithio'n agosach gyda Llywodraeth Cymru, y pedwar consortiwm rhanbarthol a'r ysgolion i wireddu'r weledigaeth y Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn addysg.